

3 Mai 2024

Datganiad y Llywydd yn unol ag Adran 111A(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

Biliau â phwnc gwarchoddedig: y gofyn am uwch-fwyafrif

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Yn fy marn i, yn unol ag adran 111A(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae darpariaethau Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn ymwneud â'r pynciau a warchodir canlynol:

- Y personau sydd â hawl i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad ar gyfer aelodaeth o'r Senedd (111A(2)(b)).
- Y system ar gyfer ethol Aelodau o'r Senedd (111A(2)(c)).
- Manylion yr etholaethau, rhanbarthau neu unrhyw ardal etholiadol gyfatebol neu eu nifer (111A(2)(d)).
- Nifer yr aelodau i'w hethol ar gyfer pob etholaeth, rhanbarth neu ardal etholiadol gyfatebol (111A(2)(e)).
- Nifer y bobl a all ddal swydd fel Gweinidog Cymru wedi'u penodi o dan adran 48 neu swydd fel Dirprwy Weinidog Cymru (111A(2)(f)).

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS

Y Llywydd

